

Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

5. Ymddiriedolwyr a llywodraethu

5.10 Cofrestr o Bobl â Rheolaeth Arwyddocaol



Beth yw'r Gofrestr o Bobl â Rheolaeth Arwyddocaol?

Cofrestr o bobl sy'n berchen ar endid corfforaethol a/neu'n rheoli un yw'r Gofrestr o Bobl â Rheolaeth Arwyddocaol.

Pam ei chyflwyno?

Yn Uwch Gynhadledd yr G8 yn 2013 cytunwyd bod angen gwella tryloywder corfforaethol.

Pa endidau sy'n gorfod cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd?

Bydd yn cymhwyso i'r mwyafrif o gwmnïau cofrestredig a Phartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (LLP) yn y Deyrnas Unedig, ni waeth beth fo eu maint na'u trosiant. Mae hyn yn cynnwys cwmnïau cyfyngedig drwy warant a chwmnïau buddiannau cymunedol. **Nid yw'n cymhwyso** i gymdeithasau cydweithredol, cymdeithasau budd cymunedol na sefydliadau elusennol corfforedig.

Pryd y daeth y newidiadau i rym?

6 Ebrill 2016.

Beth yw'r rhwymedigaethau ar gwmni/LLP?

Rhaid i gwmni/LLP greu a chynnal Cofrestr o Bobl â Rheolaeth Arwyddocaol. Rhaid i'r Gofrestr hon fod ar gael ar gyfer archwiliad cyhoeddus yn y swyddfa gofrestredig (er y gellir cadw rhai manylion yn gyfrinachol dan amgylchiadau cyfyngedig) a gall unrhyw un ofyn am gopi o'r Gofrestr o Bobl â Rheolaeth Arwyddocaol.

O 30 Mehefin 2016, bydd gofyn i gwmni/LLP ddarparu manylion penodol ynglŷn â'u "pobl â rheolaeth arwyddocaol" i Dŷ'r Cwmnïau yn flynyddol wrth gwblhau ei Ddatganiad Cadarnhau (y Ffurflen Flynyddol gynt).

Bydd gofyn i unrhyw gwmni a gorfforir ar ôl **30 Mehefin 2016** gwblhau datganiad o reolaeth gychwynnol ac ynddo'r wybodaeth berthnasol o'r Gofrestr o Bobl â Rheolaeth Arwyddocaol pan ffurfir y cwmni.

Rhaid diweddarau'r Gofrestr o Bobl â Rheolaeth Arwyddocaol yn ôl yr angen – gan gynnwys tynnu pobl oddi arni pan nad ydynt mwyach yn bodloni'r meini prawf ac ychwanegu unrhyw berson newydd sy'n ennill "rheolaeth arwyddocaol". Rhaid i gwmnïau ddiweddarau eu cofrestr o fewn 14 diwrnod o ddod yn ymwybodol o newid i'w pobl â

rheolaeth arwyddocaol. O fewn 14 diwrnod o ddiweddarau eu cofrestr, bydd yn rhaid iddynt roi gwybod i Dŷ'r Cwmnïau pryd y gwnaed y newid a beth oedd y newid.

Mae methiant i gydymffurfio â'r rheoliadau yn drosedd.

Pwy sy'n Berson â Rheolaeth Arwyddocaol?

Mae gan unrhyw un "reolaeth arwyddocaol" os ydynt yn bodloni un neu fwy o'r meini prawf canlynol:

1. Rhywun sy'n berchen ar fwy na 25% o gyfrannau'r cwmni; neu
2. Rhywun sy'n berchen ar fwy na 25% o hawliau pleidleisio'r cwmni; neu
3. Rhywun sydd â'r hawl i benodi neu ddiswyddo mwyafrif o fwrdd y cwmni; neu
4. Rhywun sydd â'r hawl i arfer, neu sy'n arfer mewn gwirionedd, ddylanwad neu reolaeth arwyddocaol dros y cwmni; neu
5. Pan fo ymddiriedolaeth neu gwmni yn bodloni un o'r pedwar amod cyntaf pe bai'n unigolyn. Unrhyw unigolyn sydd â'r hawl i arfer, neu sy'n arfer mewn gwirionedd, ddylanwad neu reolaeth arwyddocaol dros weithgareddau'r ymddiriedolaeth neu'r cwmni hwnnw.

Pan fo elusen neu fenter gymdeithasol, neu ei his-gwmni masnachu, yn dod o dan reolau'r Gofrestr o Bobl â Rheolaeth Arwyddocaol, dylech nawr wneud y canlynol:

- Creu Cofrestr o Bobl â Rheolaeth Arwyddocaol a'i diweddarau yn ôl yr angen; ni ddylai'r Gofrestr fyth fod yn wag.
- Rhoi gwybod i'ch ymddiriedolwyr am y gofyniad i gynnal a chadw Cofrestr o Bobl â Rheolaeth Arwyddocaol.
- Cymryd camau rhesymol i ganfod pwy allai fod yn berson â rheolaeth arwyddocaol a pharatoi a chynnal Cofrestr o Bobl â Rheolaeth Arwyddocaol. Mae'r Llywodraeth wedi cynhyrchu arweiniad swyddogol sy'n nodi pa gamau rhesymol y dylech eu cymryd.
- Adolygu'ch proses cynefino ymddiriedolwyr er mwyn rhoi gwybod i ymddiriedolwyr am y drefn newydd, (yn enwedig y ffaith y bydd y wybodaeth ar gael i'r cyhoedd) a chael y wybodaeth ofynnol gan yr ymddiriedolwr.
- Ystyried diwygio'ch polisi gwrthdaro buddiannau i ateb gofynion y gofrestr.
- Ystyried a ddylai gwybodaeth a fydd yn y Gofrestr o Bobl â Rheolaeth Arwyddocaol ynglŷn ag ymddiriedolwr neu rywun arall beidio â bod ar gael i'r cyhoedd. Mewn achosion o'r fath, argymhellwn i chi gael cyngor arbenigol ar y cais i atal y wybodaeth rhag cael ei datgelu.

Beth ddylid ei gofnodi yn y gofrestr?

Enw
Dyddiad geni llawn
Cenedligrwydd
Gwlad/ardal preswyllo
Cyfeiriad y gwasanaeth
Cyfeiriad preswyl
Dyddiad y daeth yn Berson â Rheolaeth Arwyddocaol
Pa feini prawf sy'n cael eu bodloni fel Person â Rheolaeth Arwyddocaol
Unrhyw gyfyngiadau sydd yn eu lle ar ddatgelu gwybodaeth y Person â Rheolaeth Arwyddocaol

Bydd y wybodaeth hon ar gael i asiantaethau gorfodi'r gyfraith a gwirio credyd.

Mewn ymateb i geisiadau am gopi o'ch Cofrestr o Bobl â Rheolaeth Arwyddocaol, dylech ddarparu:

Pob cofnod ac eithrio'r cyfeiriad preswyl.

Bydd y wybodaeth a fydd ar gael yn gyhoeddus drwy Dŷ'r Cwmnïau yn cynnwys:

Pob cofnod ac eithrio'r cyfeiriad preswyl a bydd y dyddiad geni llawn yn cael ei ddangos yn hytrach fel mis a blwyddyn geni yn unig.

Cofrestr – Geiriad swyddogol

Ni ddylai'r Gofrestr o Bobl â Rheolaeth Arwyddocaol **fyth fod yn wag**, mae geiriad swyddogol wedi'i ddarparu i'w ddefnyddio yn y gofrestr ar gyfer y sefyllfaoedd amrywiol isod:

Nid oes gan eich cwmni ddim Person â Rheolaeth Arwyddocaol neu ddim Endid Cyfreithiol Perthnasol cofrestradwy:

Mae'r cwmni yn gwybod neu mae ganddo achos rhesymol dros gredu nad oes dim person cofrestradwy neu ddim endid cyfreithiol perthnasol cofrestradwy mewn perthynas â'r cwmni.

Os ydych wrthi'n cymryd camau rhesymol:

Mae'r cwmni eto i orffen cymryd camau rhesymol i ddarganfod a oes yna unrhyw un yn berson cofrestradwy neu'n endid cyfreithiol perthnasol cofrestradwy mewn perthynas â'r cwmni.

Heb gadarnhau manylion Person â Rheolaeth Arwyddocaol:

Mae'r cwmni wedi canfod person cofrestradwy mewn perthynas â'r cwmni ond nid yw holl fanylion y person hwnnw wedi'u cadarnhau.

Heb ganfod Person â Rheolaeth Arwyddocaol:

Mae'r cwmni yn gwybod neu mae ganddo achos rhesymol dros gredu bod yna berson cofrestradwy mewn perthynas â'r cwmni ond nid yw wedi canfod y person cofrestradwy.

Mae dolen at yr arweiniad swyddogol ar gael [yma](#) a dylid cyfeirio ato os oes amheuaeth.

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH

Elusen Gofrestredig: 1068623

Ffôn: 029 2048 5722

enquiries@c3sc.org.uk

Ffacs: 029 2046 4196

www.c3sc.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cyngorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli

Wedi ei ddiweddarau: 16/01/2018



Ffôn: 0300 111 0124

www.wcva.org.uk